



Y trac hawliadau bychain yn y llysoedd sifil

Os yw eich anghydfod wedi mynd ymlaen i'r llys

Ynghylch y daflen hon

Mae'r daflen hon ar gyfer pobl mewn anghydfod sydd wedi mynd i'r llys ac mae'r hawliad wedi ei ddyrannu i'r trac hawliadau bychain. Mae'n esbonio:

- beth sy'n digwydd yn y llys;
- pa lwybr y gall achos ei ddilyn; a
- beth sy'n digwydd ar ôl gwranddo'r achos.

Gwybodaeth bwysig am y daflen hon

Canllaw yn unig yw'r daflen hon. Efallai y byddwch eisiau cyngor cyfreithiol annibynnol cyn gwneud unrhyw benderfyniad sy'n seiliedig ar y daflen hon.

Os oes arnoch angen y daflen hon mewn fformat arall, er enghraifft mewn print bras, dylech gysylltu â'ch llys lleol.

Pa wahanol lwybrau y gall achos eu dilyn?

Y barnwr fydd yn penderfynu pa lwybr bydd yr achos yn ei ddilyn yn y llys a seilir hynny ar werth yr hawliad ac ar ba mor gymhleth yw'r achos. Mae'n effeithio ar bopeth, o'r ffordd y dylid paratoi achos, i hyd y gwrandawriad, a hyd yn oed y math o farnwr a ddefnyddir.

Mae tri llwybr, ac fe elwir y rhain yn draciau (trac hawliadau bychain, y trac cyflym a'r amldrac).

Trac Hawliadau Bychain – fel rheol ar gyfer hawliadau llai eu gwerth a llai cymhleth, gyda'u gwerth hyd at £10,000 (er bod rhai eithriadau i'w cael).

Trac Cyflym – hawliadau gwerth rhwng £10,000 a £25,000.

Amldrac – Mae hyn ar gyfer hawliadau cymhleth iawn sydd werth £25,000 neu fwy.

Dim ond y traciau hawliadau bychain a wnelo'r daflen hon. I gael rhagor o wybodaeth am y trac cyflym a'r amldrac, darllenwch daflen EX305 'Hawliadau trac cyflym a'r amldrac yn y llysoedd sifil'.

Ble alla'i gael cyngor cyfreithiol?

Gallwch fod yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol. Am ragor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/legal-aid.

Cewch hefyd gyngor cyfreithiol di-dâl yn un o ganolfannau'r gyfraith neu gan ganolfan Cyngor ar Bopeth yn www.adviceguide.org.uk.

Beth sy'n digwydd yn gyntaf?

Pan fydd hawliad yn cael ei amddiffyn, bydd y llys yn anfon 'rhybudd o ddyrannu i'r trac dros dro' wedi'i seilio ar werth yr hawliad atoch. Bydd y rhybudd yn dweud wrthy ch pa holiadur cyfarwyddiadau mae'n rhaid i chi ei gwblhau. Bydd yr holiadur cyfarwyddiadau yn cynorthwyo barnwr i benderfynu a yw'r trac yr hawliad a ddyrannwyd dros dro iddo yn gywir neu beidio. Y barnwr fydd yn gwneud penderfyniad ar ba lwybr y dylai hawliad ei ddilyn. Oherwydd hyn, mae'n bwysig eich bod yn llenwi'r ffurflen yn ofalus iawn. Darllenwch y canllawiau ar y ffurflen cyn dechrau ei llenwi.

Gwnewch yn siŵr bod rhif yr hawliad, yn ddi-ffael, ar frig y ffurflen. Llenwch yr adran gwybodaeth bersonol yn llawn, gan gynnwys eich holl fanylion cysylltu megis rhif ffôn symudol a'ch cyfeiriad e-bost, gan y bydd hyn yn caniatáu i'r llys gysylltu â chi ar frys os bydd angen.

Anfon yr holiadur cyfarwyddiadau yn ôl i'r llys

Dylech gysylltu â'r unigolyn arall sy'n rhan o'r anghydfod i drafod yr wybodaeth yr ydych am ei rhoi yn y ffurflen cyn ei dychwelyd i'r llys.

Rhaid i chi ddychwelyd y ffurflen i'r llys erbyn y dyddiad penodol, neu gall y llys bennu cosb. Hyd yn oed os na fydd un parti arall yn cydweithredu, ni ddylech chi adael i hyn eich rhwystro rhag llenwi'r holiadur cyfarwyddiadau a'i ddychwelyd i'r llys. Edrychwch yn ofalus ar gyfeiriad y llys y dylid dychwelyd y ffurflen.

Oes rhaid i mi drafod y ffurflen gyda'r parti arall?

Bydd y barnwr yn disgwyl i chi a'r parti arall sy'n rhan o'r achos (neu eich cynrychiolydd cyfreithiol) i gydweithredu â'i gilydd wrth llenwi'r ffurflen. Dylai'r ddwy ochr sicrhau eu bod wedi cysylltu â'i gilydd er mwyn trafod llenwi'r holiadur cyfarwyddiadau.

Gallai'r llys ddisgwyl i chi fod wedi trafod y canlynol a, lle bo hynny'n bosib, cytuno yn eu cylch.

- a oes modd setlo'r achos neu beidio.
- pa drac yw'r trac mwyaf priodol ar gyfer yr hawliad.
- pa mor hir rydych chi'n credu bydd y treial yn para.
- Os oes modd, faint o amser rydych ei angen arnoch i baratoi eich achos a'r trefniadau ar gyfer cyfnewid tystiolaeth.

Allwn ni setlo'r achos ac osgoi gwrandawriad?

Y Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain

Yn unol â'r Rheolau Trefniadaeth Sifil, dylai'r ddau barti wneud pob ymdrech i setlo eu hachos, ac ar y cam hwn dylech chi dal feddwl a ydych chi neu'r parti arall am allu setlo eich anghydfod heb orfod cael gwrandawriad.

Gallwch geisio setlo'r hawliad naill ai drwy cyd-drafod neu gynnal trafodaeth uniongyrchol gyda'r parti arall neu drwy gyfryngu. Os gallwch ddod i setliad, gallwch gael cytundeb rhwymol a ellir ei orfodi os na chydymffurfir â thelerau'r cytundeb.

Os bydd yr hawliad yn cael ei setlo ar y cam hwn, gallwch osgoi ffioedd llys, costau ac amser sydd ynghlwm â pharatoi a mynd i wrandawriad. Gallwch ddefnyddio unrhyw ddarparwr cyfryngu.

Mae'r holiadur cyfarwyddiadau yn gofyn a hoffech chi i'r llys drefnu apwyntiad cyfryngu i'ch helpu i setlo eich anghydfod. Ffordd o ddatrys anghydfodau heb gael gwrandawriad llys yw cyfryngu. Proses wirfoddol yw hon, gyda chymorth cyfryngwr diduedd, yn eich helpu i ddod i gytundeb sy'n dderbyniol gan bawb dan sylw.

Mae'r gwasanaeth cyfryngu hawliadau bychain yn cael ei ddarparu am ddim. Os ydych eisiau defnyddio'r gwasanaeth hon i 'ch helpu i setlo eich anghydfod, dylech nodi hynny yn yr Holiadur Cyfarwyddiadau.

Yn ystod y cyfryngu, byddwch chi a'r parti arall sy'n rhan o'r anghydfod yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â setlo, ac os na allwch chi gytuno bryd hynny, gallwch ddal i gael gwrandawriad llys. Cewch rhagor o wybodaeth o'n *taflen EX730 – Gwasanaeth cyfryngu hawliadau bychain dros y ffôn*

Beth sy'n digwydd pan fydd y llys yn cael yr holiadur cyfarwyddiadau?

Pan fydd y llys yn cael yr holiaduron cyfarwyddiadau wedi'u llenwi gan y ddau barti, bydd y barnwr yn astudio'r wybodaeth a ddarparwyd. Bydd y barnwr wedyn yn penderfynu sut dylai'r achos symud ymlaen, drwy ystyried pa lwybr y dylai ei ddilyn. Bydd y barnwr yn ystyried yr hyn yr ydych wedi'i ddweud yn yr hawliad a'r holiaduron cyfarwyddiadau a bydd yn edrych yn benodol ar y swm sydd dan anghydfod, yr amserlen a'r dystiolaeth sydd eu hangen. Bydd yr holl bethau hyn yn helpu'r barnwr benderfynu a ddylai'r achos gael ei ddyrannu i'r trac hawliadau bychain, y trac cyflym neu i'r amldrac.

Beth os bydd y barnwr angen rhagor o wybodaeth?

Weithiau, bydd y barnwr o bosib yn gofyn am ragor o wybodaeth cyn penderfynu ar ddyrannu. Efallai y cewch orchymyn llys yn gofyn i chi anfon rhagor o wybodaeth i'r llys yn ysgrifenedig. Os bydd hyn yn digwydd, bydd y llys yn anfon ffurflen 'Gorchymyn am Ragor o Wybodaeth (Dyraniad)' yn esbonio pa wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen ar y barnwr. Bydd y ffurflen hefyd yn dweud wrthy'ch erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid i chi anfon yr wybodaeth i'r llys.

Neu, efallai y gofynnir i chi ddod i wrandawriad i ddweud mwy wrth y barnwr wyneb yn wyneb. Gelwir hyn yn wrandawriad dyrannu. Os yw'r barnwr yn penderfynu cynnal gwrandawriad dyrannu, anfonir hysbysiad gwrandawriad atoch chi a'r parti arall, a bydd hwnnw'n dynodi amser, dyddiad a lleoliad y gwrandawriad.

Mewn sawl achos, bydd y barnwr yn gallu penderfynu ynghylch y llwybr y bydd yr achos yn ei ddilyn ar sail y wybodaeth a ddarparwyd gan y ddau barti yn yr hawliad, amddiffyniad a'r holiadur dyrannu, felly ni fydd angen gwrandawriad dyrannu.

Sut bydda' i'n gwybod i ba drac y mae'r hawliad wedi'i ddyrannu?

Unwaith y bydd y barnwr wedi penderfynu, bydd y llys yn anfon hysbysiad dyrannu atoch chi a'r parti arall. Bydd hyn yn nodi i ba drac y dyrannwyd yr hawliad, a'r hyn y mae'r llys yn ei ddisgwyl i chi ei wneud nesaf. Gelwir y camau y mae angen chi eich dau eu cymryd yn 'gyfarwyddiadau'.

Mae'n rhaid i chi dalu'r ffi gwrandawriad i'r llys neu ffeilio cais am Help i Dalu Ffioedd erbyn y dyddiad a nodir yn yr gorchymyn.

Bydd methu â thalu'r ffi neu wneud cais priodol am Help i Dalu Ffioedd yn golygu caiff yr hawliad/gwrth-hawliad **ei ddileu ar unwaith heb orchymyn arall a bydd y gwrandawriad yn cael ei dynnu oddi ar y rhestr.**

Os ydy eich cais wedi'i ddileu, ni fydd yn bodoli mwyach. Rhaid ffeilio hawliad newydd ynghyd â'r ffi briodol neu gais am help i dalu ffioedd.

Bydd y gwrandawriad yn cael ei ddad-restru, oni bai bod gwrth-hawliad yn parhau i fodoli er bod yr hawliad wedi'i ddileu.

Ni ellir ad-dalu ffi y gwrandawriad. Os yw'r partion yn setlo cyn mae'n amser i dalu'r ffi, ni fydd y ffi gwrandawriad yn daladwy.

Beth fydd yn digwydd pan gaiff fy achos ei ddyrannu i'r trac hawliadau bychain?

Bydd y rhybudd dyrannu yn dweud wrthyhych beth mae'n rhaid i chi wneud i baratoi ar gyfer y gwrandawriad terfynol. Gelwir hyn yn 'gyfarwyddiadau'. Mae'n bosib y bydd hyn yn gynnwys:

- cyfarwyddiadau i anfon dogfen gefnogi i'r llys a'r parti arall, a fydd yn dweud erbyn pryd mae angen i chi wneud hyn;
- caniatâd i ddefnyddio arbenigwr yn y gwrandawriad;
- gwybodaeth am gyfryngu os ydych chi neu'r parti arall wedi gofyn am gyfryngu, neu bod y barnwr yn credu bod yr achos yn addas ar gyfer cyfryngu; a;
- gwybodaeth am ddyddiad a lleoliad y gwrandawriad, ac am faint mae'r barnwr yn credu y bydd yn para; a'r
- ffi gwrandawriad sy'n ofynnol.

Os chi sy'n gwneud yr hawliad, bydd angen i chi dalu ffi'r gwrandawriad. Os na fyddwch yn talu ffi'r gwrandawriad erbyn y dyddiad y mae'n ddyledus, mae'n bosib na fydd y llys yn cynnal y gwrandawriad. I gael rhagor o wybodaeth am ffioedd, mae'r llyfryn a'r ffurflen sef *EX160A Ffioedd Llys a Thribiwnlys - Oes rhaid i mi eu talu?* ar gael ar hmctsformfinder.gov.uk neu o'r llys.

Gwrandawriadau rhagarweiniol

Mewn ambell sefyllfa, efallai na fydd y barnwr yn pennu dyddiad y gwrandawriad terfynol yn y cam dyrannu. Yn hytrach, efallai bydd y barnwr yn penderfynu cynnal gwrandawriad rhagarweiniol. Bydd yn ond yn digwydd os:

- yw'r achos angen camau arbennig neu anghyffredin a bod y barnwr eisiau egluro hyn i chi yn bersonol;

- yw'r barnwr yn teimlo nad oes gan naill barti na'r llall wir obaith o ennill yr achos a'i fod am glirio'r achos cyn gynted a bo modd er mwyn arbed amser ac arian i bawb;
- nad yw'r sawl sydd wedi gwneud yr hawliad yn dangos unrhyw seiliau rhesymol dros gyflwyno'r hawliad, neu nad yw amddiffyniad y diffynnydd yn dangos unrhyw seiliau rhesymol dros ei amddiffyn.

Bydd eich rhybudd dyrannu neu gwrandawriad rhestru yn dweud wrthy ch a oes angen i chi fynd i'r gwrandawriad rhagarweiniol neu beidio.

A fydd gwrandawriad bob tro?

Na fydd. Os bydd barnwr yn delio a'ch achos heb wrandawriad, anfonir rhybudd dyrannu i'r trac hawliadau bychain atoch (dim gwrandawriad). Bydd yr hysbysiad yn dweud wrthy ch fod y barnwr yn credu y gellir delio a'ch achos heb gael gwrandawriad, gan ddefnyddio'r tystiolaeth ysgrifenedig yn unig. Bydd yr hysbysiad yn gofyn i chi ddweud wrth y llys os ydych yn gwrthwynebu, gan roi dyddiad i chi ar gyfer ymateb. Os byddwch chi neu'r parti arall yn gwrthwynebu, mae'n bosib yr ymdrinnir â hyn yn y gwrandawriad. Os na fyddwch yn ymateb erbyn y dyddiad dan sylw, mae'n bosib y bydd y barnwr yn ystyried eich bod yn cydsynio drwy beidio ag ymateb.

Oes rhaid i mi fynd i'r gwrandawriad?

Nac oes. Os nad ydych am fynd i'r gwrandawriad, cewch ofyn i'r llys ddelio â'r hawliad heb i chi fod yn bresennol. Rhaid i chi ysgrifennu llythyr at y llys, gan roi rhif yr hawliad, dyddiad y gwrandawriad a'r rheswm pam na fyddwch yn bresennol. Dylech hefyd ofyn i'r llys wneud penderfyniad ynglŷn â'r achos yn eich absenoldeb gan ddefnyddio unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig yr ydych wedi'i roi iddynt. Rhaid i'r llythyr gyrraedd y llys saith niwrnod cyn dyddiad y gwrandawriad fan hwyraf.

Dylech hefyd anfon copi o'r llythyr i'r parti arall yn yr anghydfod.

Beth os yw dyddiad y gwrandawriad yn anghyfleus?

Os ydych am fynd i'r gwrandawriad ond bod y dyddiad yn anghyfleus, gallwch wneud cais i'r llys am bennu dyddiad diweddarach. Efallai y bydd rhaid i chi dalu ffi i newid y dyddiad.

Beth ddylwn ei wneud i baratoi ar gyfer y gwrandawriad?

I baratoi ar gyfer y gwrandawriad, dylech wneud yn siŵr eich bod yn gwneud popeth y mae'r rhybudd dyrannu i'r trac hawliadau bychain yn ddweud wrthy ch ei wneud.

Os ydy hwnnw'n dweud wrthy ch am anfon dogfennau i'r parti arall yn yr anghydfod ac at y llys, peidiwch ag anfon y fersiwn wreiddiol o'r dogfennau hyn. Anfonwch copïau, ond dewch â'r dogfennau gwreiddiol gyda chi i'r gwrandawriad.

Cofiwch, dim ond hyn a hyn o amser fydd gennych i gyflwyno eich achos gerbron y barnwr. Gwnewch yn siŵr bod unrhyw ddogfennau yr ydych yn cyfeirio atynt yn y drefn cywir. Mae'n syniad da hefyd i ysgrifennu'r pethau yr ydych am eu dweud ar bapur. Os gwnewch chi hyn, byddwch yn llai tebygol o anghofio rhywbeth sy'n bwysig ac yn fwy tebygol o esbonio pethau yn y drefn cywir.

Os bydd tyst neu arbenigwr yn rhoi tystiolaeth o'ch plaid yn y gwrandawriad, gwnewch yn siŵr eu bod yn gwybod ble mae'r llys a phryd y bydd y gwrandawriad yn dechrau. Trefnwch i'w cyfarfod yn y llys ychydig cyn i'r gwrandawriad ddechrau.

Efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi ddarllen EX342 – Dod i wrandawriad llys? Ambell beth y dylech wybod. Efallai y byddai eich tyst, os oes gennych un, am ddarllen taflen EX341 – *Gofynnwyd i mi fod yn dyst – beth ddylwn ei wneud?* Gweler tudalen 11 am fanylion am sut i ddod o hyd i'n taflenni.

A gaf ofyn i rywun arall siarad ar fy rhan i yn y gwrandawriad?

Gallwch. Os nad oes gennych gynrychiolydd cyfreithiol, cewch fynd a rhywun gyda chi i siarad ar eich rhan. Gelwir yr unigolyn hwn yn 'gynrychiolydd lleyg' a gall fod yn unrhyw un o'ch dewis, megis gŵr neu wraig, perthynas, ffrind neu gynghorydd. Ni all y cynrychiolydd lleyg fynd i'r gwrandawriad heboch chi, oni bai eich bod wedi cael caniatâd gan y llys.

Fel rheol, ni all asiantaethau cynghori ddarparu cynrychiolydd i'ch helpu mewn gwrandawriad. Os ydych yn meddwl am ofyn i asiantaeth, cysylltwch â hwy cyn gynted ag y byddwch yn gwybod dyddiad y gwrandawriad. Byddent hwy yn dweud wrthyich chi os allent eich helpu neu beidio. Mae'n bosib y bydd rhai cynrychiolwyr am gael eu talu am eich helpu yn y gwrandawriad, a rhaid i chi wneud yn siŵr faint yn union y bydd hyn yn ei gostio. Bydd yn rhaid i chi dalu ffi am ofyn i'r llys wneud hynny.

Cofiwch, efallai bod cynrychiolwyr sy'n codi tâl am helpu ddim yn rhan o sefydliad proffesiynol. Mae hyn yn golygu, os nad ydych yn fodlon a'u help, nid oes neb y gallwch wneud cwyn iddynt.

Gallaf ddefnyddio arbenigwr i'm helpu i brofi fy hawliad?

Os ydych chi eisiau defnyddio arbenigwr, mae'n rhaid i chi gael caniatâd y llys. Oherwydd hyn, dylech nodi hyn yn yr holiadur cyfarwyddiadau. Rhaid i chi ddweud beth fydd tystiolaeth arbenigwr yn ymwneud ag ef ac a fydddech yn dymuno i'r arbenigwr roi tystiolaeth mewn adroddiad ysgrifenedig, ar lafar yn y gwrandawriad, ynteu'r ddau. Os oes modd, dylai'r ddau barti ddefnyddio'r un arbenigwr oherwydd y bydd hyn yn arbed costau i chi.

Bydd eich rhybudd dyrannu yn dweud wrthy ch a ydych wedi cael caniatâd i ddefnyddio arbenigwr neu beidio. Bydd yn dweud wrthy ch hefyd pa bryd y dylech anfon copi o adroddiad yr arbenigwr at y llys ac at y parti arall sy'n rhan o'r anghydfod.

Ble cynhelir y gwrandawriad?

Gellir cynnal gwrandawiadau hawliadau bychain mewn ystafell llys neu'n aml mewn ystafell y barnwr (a elwir weithiau yn siambrau'r barnwr) lle byddwch yn eistedd o gwmpas bwrdd. Fel rheol, mae'r gwrandawiadau'n llai ffurfiol ac fe'u cynhelir yn gyhoeddus. Mae hyn yn golygu y gall aelodau o'r cyhoedd ddod i'r achos a gwrandao arno.

Mae'n bosib y bydd barnwr yn cytuno i wrando'ch achos yn breifat, lle na all aelodau o'r cyhoedd fod yn bresennol. Mae'n bosibl y byddant yn gwneud hyn os:

- yw'r ddau barti wedi cytuno i hyn;
- y cynhelir y gwrandawriad ar y safle, er enghraifft, mewn cartref neu mewn eiddo busnes, oherwydd bod yr hawliad yn berthnasol i waith sydd wedi ei wneud yno;
- byddai cyhoeddusrwydd yn groes i fwriad y gwrandawriad;
- oes angen ystyried buddiannau plentyn neu unigolyn a warchodir;
- yw'n cynnwys gwybodaeth gyfrinachol; neu
- os yw'r llys o'r farn ei fod yn angenrheidiol er budd cyfiawnder. Fel rheol, bydd yr achos yn cael ei recordio.

Beth fydd yn digwydd yn y gwrandawriad?

Bydd y barnwr yn siarad yn gyntaf, i gadarnhau eich enw ac ai chi yw'r hawlydd neu'r diffynnydd. Wrth ymateb i'r barnwr, dylech alw barnwr sy'n ddyn yn 'Syr' a barnwr sy'n fenyw yn 'Fadam'.

Yna bydd y barnwr yn eich gwahodd i eistedd. Mae'n bosib y bydd y barnwr yn esbonio sut y cynhelir y gwrandawriad. Gall hyn amrywio o'r naill achos i'r llall. Mae'n bosibl y bydd y barnwr yn gofyn i'r hawlydd siarad gyntaf i roi unrhyw reswm neu dystiolaeth i gefnogi'r hawliad. Yna, rhoddir cyfle i'r diffynnydd ofyn i'r hawlydd am y datganiad ac am y dystiolaeth. Bydd cyfle wedyn i'r ddau barti ofyn cwestiynau i'w gilydd.

Ar ddiwedd y gwrandawriad, bydd y barnwr yn dweud wrthy ch beth yw penderfyniad y llys (y dyfarniad) ac yn rhoi rhesymau cryno i chi.

Beth fydd yn digwydd ar ôl y gwrandawriad?

Ar ôl y gwrandawriad, anfonir copi o'r dyfarniad atoch chi a'r parti arall sy'n rhan o'r anghydfod. Bydd yn nodi penderfyniad y barnwr yn ogystal ag unrhyw orchymyn am gostau. Os oedd yr hawliad yn hawlio swm o arian, bydd y gorchymyn yn cynnwys y trefniant ar gyfer talu.

Os oeddech wedi dweud wrth y llys na fydddech yn dod i'r gwrandawriad, bydd hefyd yn rhoi rhesymau byr i chi dros y penderfyniad.

Os gorchmynnwyd i'r parti arall dalu swm o arian i chi, ond nad yw'n ei dalu, dylech gofio na wnaiff y llys gymryd unrhyw gamau heblaw eich bod yn gofyn iddo wneud. Gelwir hyn yn 'orfodi eich dyfarniad'. Mae'n bosib y bydd rhaid i chi dalu ffi am hyn. I gael rhagor o wybodaeth am orfodi, darllenwch ein taflen *EX321 - Rwyf wedi cael dyfarniad ond nid yw'r diffynnydd wedi talu - Beth ddylwn i ei wneud?* Gweler tudalen 11 am fanylion ar sut i gael gafael ar ein gwahanol daflenni.

Ga'i apelio yn erbyn y penderfyniad?

Os byddwch yn colli'ch achos a'ch bod am apelio yn erbyn penderfyniad y barnwr, bydd angen i chi gael caniatâd i wneud hynny. Os gwnaed y penderfyniad heb wrandawriad, neu gwnaethpwyd y penderfyniad yn eich absenoldeb oherwydd fe roesoch hysbysiad yn gofyn i'r llys ddelio â'ch hawliad yn eich absenoldeb. Gellir gwneud cais am ganiatâd i apelio yn eich hysbysiad apêl. Os oeddech yn bresennol yn y gwrandawriad lle gwnaethpwyd y penderfyniad, cewch ofyn i'r barnwr am ganiatâd ar ddiwedd y gwrandawriad.

Rhaid bod gennych seiliau iawn dros apelio a chewch chi ddim gwneud hynny dim ond oherwydd eich bod yn meddwl bod penderfyniad y barnwr yn anghywir.

Os penderfynwch eich bod am apelio, rhaid i chi weithredu'n gyflym gan bod yr amser i gychwyn eich apêl yn gyfyngedig.

I gael ragor o wybodaeth ar wneud apêl, darllenwch ein taflen *EX340 – Rwyf eisiau gwneud apêl - beth ddylwn i ei wneud?* Gweler tudalen 11 am fanylion sut i ddod o hyd i'n taflenni.

Beth os nad oeddwn yn bresennol yn y gwrandawriad?

Os nad oeddech chi'n bresennol yn y gwrandawriad ac nad oedd neb yn eich cynrychioli chwaith, a ni wnaethpwyd cais i'r llys ddelio â'r mater yn eich absenoldeb, cewch wneud cais am roi'r dyfarniad a gafwyd yn y gwrandawriad hwnnw o'r neilltu a gwrando'r achos eto. Rhaid i chi wneud y cais o fewn 14 diwrnod ar ôl i chi gael y dyfarniad. Os ydych am wneud cais am roi'r dyfarniad o'r neilltu, dylech ofyn i'r llys am Gyflwyno Cais. Mae'n bosibl y bydd rhaid i chi dalu ffi.

Ar ôl i chi gyflwyno cais, bydd y llys yn dweud wrthyfych pa bryd y mae'n rhaid i chi ddod i'r llys er mwyn gwrando'r cais gerbron barnwr.

Bydd barnwr ond yn ailwrando achos os:

- oes gennych reswm da dros beidio â mynd i'r gwrandawriad, neu
- oes gennych ragolygon rhesymol o fod yn llwyddiannus mewn ail wrandawriad.

os bydd y barnwr yn cytuno i wrando'r achos eto, bydd y llys yn pennu dyddiad newydd ar gyfer gwrando'r achos.

Os bydd yr hawliad yn un syml, mae'n bosib y bydd y barnwr yn penderfynu ymdrin ag ef yn syth ar ôl gwrando'r cais

Ffioedd llys a beth ddylwn ei wneud os na allaf eu talu?

Mae'n bosibl y bydd rhaid i chi dalu ffi. Mae ffioedd y llys yn daladwy ar yr adeg pan fyddwch yn ffeilio unrhyw ddogfen neu'n cychwyn unrhyw broses lle mae'n rhaid talu ffi, oni nodir yn wahanol.

Mae llysoedd yn derbyn taliad gydag arian parod neu sieciau, a dylent fod yn daladwy i: Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM (GLITEM)'. Os byddwch yn talu â siec a bod honno'n cael ei gwrthod, bydd y llys yn cymryd camau i adennill yr arian. Os na fyddwch yn talu, bydd eich achos yn cael ei ohirio neu hyd yn oed ei ddileu. Gallwch dalu â cherdyn credyd neu gerdyn debyd os byddwch yn defnyddio unrhyw un o'r gwasanaethau ar-lein (Money Claim Online neu Possession Claim Online).

Mae rhestr o ffioedd y llys ar gael yn y daflen *EX50 Ffioedd y Llys Sifil a'r Llys Teulu* neu gall staff y llys ddweud wrthyfych faint mae'n rhaid i chi ei dalu.

Gallwch wneud cais am help gyda ffioedd llys a thribiwnlys ar-lein yn www.gov.uk/help-with-court-fees neu drwy'r ffurflen 'EX160A – Gwneud cais am help i dalu ffioedd' a'r cyfarwyddyd 'EX160A – Sut i wneud cais am help i dalu ffioedd'.

Bydd rhaid i chi wneud cais ar wahân bob tro mae'n rhaid i chi dalu ffi'r llys.

Pa lwybr y gall anghydfod ei ddilyn yn y llys

Mae'r diagram isod yn dangos sut y gall hawliad ynghylch anghydfod fynd rhagddo drwy'r llys. Mae'r daflen hon yn sôn am y rhan o'r broses sydd wedi'i hamlygu.



Anghydfod

Ystyr anghydfod yw pan fo rhywun yn anghytuno ag unigolyn neu sefydliad arall, er enghraifft dros arian sy'n ddyledus.

Dechrau proses y llys

Mae proses y llys yn dechrau pan wneir hawliad drwy'r llysoedd. Yna, gellir naill ai amddiffyn yr hawliad neu addef iddo.

Amddiffyn yr hawliad

Os caiff yr hawliad ei amddiffyn neu os na allwch chi na'r parti arall gytuno ar yr arian sy'n ddyledus, bydd yr anghydfod yn mynd gerbron y llys.

neu

Opsiwn arall yn hytrach na'r llys

Mae'r llys yn dweud bod rhaid ichi geisio setlo'r anghydfod drwy ffyrdd eraill yn hytrach na mynd i'r llys. Yn gyffredinol, mae'r ffyrdd hyn yn rhatach ac yn gyflymach. Os bydd ffordd arall yn llwyddiannus, bydd y broses yn dod i ben gyda hynny.

Trac hawliadau bychain

Os yw'r hawliad am £10,000 neu lai, mae'n debyg yr ymdrinnir ag ef drwy'r trac hawliadau bychain. Fel rheol, bydd yr achosion hyn yn para llai na chwe mis.

neu

Aml-drac neu drac cyflym

Os yw'r hawliad am fwy na £10,000, mae'n debygol y delir â'r rhain drwy'r broses aml-drac neu'r trac cyflym. Gall yr achosion hyn fod yn gymhleth, ac felly gall gymryd hwy na chwe mis i'w cwblhau.

Apelio yn erbyn penderfyniad llys

Os byddwch chi neu'r parti arall yn anghytuno â phenderfyniad y barnwr, gallwch apelio. Rhaid i chi gael sail (rhesymau) briodol a chaniatâd y barnwr i apelio.

Oes angen cyngor cyfreithiol arna'i?

Gallwch gael cyngor a gwybodaeth cyfreithiol yn rhad ac am ddim gan nifer o sefydliadau. Cofiwch, all staff y llys ddim rhoi cyngor cyfreithiol ichi am eich achos.

Ble allaf gael rhagor o wybodaeth?

I gael gwybodaeth gyffredinol am ddatrys anghydfod cyfreithiol, ewch i www.gov.uk

I gael cyngor am weithdrefnau'r llys, i gael y ffurflenni y mae eu hangen arnoch neu i gael help i'w llenwi, siaradwch â staff y llys. Ond cofiwch, ni allant roi cyngor cyfreithiol ichi. Er enghraifft, ni fedrant ddweud wrthy ch a oes gennych hawliad da neu bwy y dylech hawlio ganddynt.

Gallwch fod yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol. Am ragor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/legal-aid

Cewch hefyd gyngor cyfreithiol di-dâl yn un o ganolfannau'r gyfraith neu gan ganolfan Cyngor ar Bopeth yn www.adviceguide.org.uk

I ddarllen ein taflenni eraill yn y gyfres hon, ewch i hmctsformsfinder.justice.gov.uk

I gael gwybodaeth am faterion defnyddwyr, ffoniwch Gyswllt Defnyddwyr Cymru ar 08454 04 05 06 neu ewch i www.consumerdirect.gov.uk

Ar gyfer materion yn ymwneud â dŵr, cysylltwch â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr ar 0121 345 1000 neu 0845 039 2837 (bydd hwn yn eich ailgyfeirio at eich pwyllgor lleol) neu drwy anfon e-bost at enquiries@ccwater.org.uk

Am faterion yn ymwneud â ffonau llinell dir, ffonau symudol a'r rhyngrwyd, ffoniwch Ofcom ar 020 7981 3040 neu gallwch anfon e-bost at Ofcom drwy eu gwefan yn www.ofcom.org

Am faterion yn ymwneud â nwy a thrydan, ffoniwch Ofgem ar 020 7901 7295 neu e-bostiwch consumeraffairs@ofgem.gov.uk

I gael gwybodaeth am sut i gysylltu â'r gwasanaethau Ombwdsman, ffoniwch Gymdeithas Ombwdsman Prydain ac Iwerddon ar 020 8894 9272 neu e-bostiwch secretary@bioa.org.uk

I gael manylion cyswllt pob un o'n llysoedd, ewch i courttribunalfinder.service.gov.uk

Pa gymorth ychwanegol sydd ar gael os gennyf anabledd?

Os oes arnoch angen y daflen hon mewn fformat arall, er enghraifft mewn print bras, dylech gysylltu â'ch llys lleol am gymorth. Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt ar gyfer yr holl lysoedd ar-lein yn courttribunalfinder.service.gov.uk

Os oes gennych anabledd sy'n golygu bod mynd i'r llys neu gyfathrebu yn anodd i chi, cysylltwch â'r llys perthnasol a gallant eich helpu chi. Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt ar gyfer yr holl lysoedd ar-lein yn courttribunalfinder.service.gov.uk.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM yn un o asiantaethau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae'r asiantaeth yn gyfrifol am weinyddu'r llysoedd troseddol, y llysoedd sifil, y llysoedd teulu a'r triwlynlysoedd yng Nghymru a Lloegr, a'r triwlynlysoedd heb eu datganoli yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Rydym yn darparu system gyfiawnder deg, effeithlon ac effeithiol a weithredir gan farnwriaeth annibynnol.

Rydym yn anelu i sicrhau y gall bawb gael mynediad prydlon at gyfiawnder yn unol â'u gwahanol anghenion, boed yn ddioddefwyr troseddau neu'n dyst iddynt, yn ddiffynyddion a gyhuddwyd o gyflawni troseddau, yn ddefnyddwyr mewn dyled, yn blant mewn perygl o niwed, yn fusnesau sydd mewn anghydfodau masnachol neu'n unigolion sy'n mynnu eu hawliau cyflogaeth neu'n herio penderfyniadau cyrff y llywodraeth.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.justice.gov.uk/about/hmcts